

Ansawdd dŵr yng Nghymru

Hysbysiad Hwylus

Tachwedd 2015

Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn amlinellu'r amrywiol Gyfarwyddbau sy'n gysylltiedig â gwella ansawdd dŵr yng Nghymru. Mae'n cynnwys y *Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr*, y *Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi*, a'r *Gyfarwydddeb Nitradau*. Mae hefyd yn edrych ar a yw Cymru wedi cyrraedd targedau'r Gyfarwyddbau.

Beth yw'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr

Daeth y *Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC) (WFD)* i rym ym mis Rhagfyr 2000, a daeth yn rhan o gyfraith y DU yn 2003. Mae'r Gyfarwydddeb yn cyflwyno dull cyson o reoli dŵr, ac mae wedi disodli nifer o Gyfarwyddbau Ewropeaidd blaenorol.¹

Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yw darn mwyaf sylweddol o ddeddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd ar ddŵr hyd yma, ac mae wedi'i llunio i wella ac integreiddio'r modd y caiff crynofeydd dŵr eu rheoli ledled Ewrop. Mae'n gymwys i'r holl grynofeydd dŵr wyneb croyw (gan gynnwys llynnoedd, nentydd ac afonydd), dyfroedd daear ac ecosystemau cysylltiedig, aberoedd a dyfroedd yr arfordir hyd at filltir allan o'r trai. Nod y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yw:

- lleihau llygredd a gwella cyflwr ecosystemau dŵr;
- hyrwyddo defnyddio dŵr mewn modd cynaliadwy; a
- lleihau effeithiau llifogydd a sychder.²

Caiff y Gyfarwydddeb ei rhoi ar waith gam wrth gam, fesul basn afon, yn hytrach nag ar draws ffiniau cenedlaethol neu wleidyddol, drwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (y manylir arnynt yn ddiweddarach).³ Cynhelir adolygiadau o'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd bob chwe blynedd. Yn y pen draw, rhaid i aelod wladwriaethau fonitro, diogelu, gwella ac adfer yr holl grynofeydd dŵr wyneb a dŵr daear.

Mae cynllun dosbarthu'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer ansawdd dŵr yn cynnwys pum dosbarth statws: '**uchel**', '**da**', '**cymedrol**', '**gwael**' a '**drwg**'. Diffinnir statws 'uchel' fel yr amodau biolegol, cemegol a morffolegol sy'n gysylltiedig â dim pwysau dynol neu ychydig iawn o bwysau dynol (yr amod cyfeirio). Mae asesiad o ansawdd yn seiliedig ar faint o wyro sydd oddi wrth yr amod cyfeirio; mae 'statws da' yn golygu gwyrriad 'bach', 'statws cymedrol' yn golygu gwyrriad 'cymedrol', ac ati.

¹Asiantaeth yr Amgylchedd, Cynllunio ac Ymchwil, Cynllunio, Polisi Cynllunio, Rheoli a gwella'r amgylchedd dŵr, cyflwyniad i'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr *Pam mae angen y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr* [Fel ar 22 Ionawr, 2015]

² OJ L 327, 22.12.2000 [fel ar 23 Mawrth 2015]

³Y Comisiwn Ewropeaidd, *Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr*, Tachwedd 2010 [fel ar 23 Mawrth, 2015]



Amcan cyffredinol y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yw cyflawni 'statws da' ar gyfer yr holl ddyfroedd mewndirol ac arfordirol erbyn 22 Rhagfyr, 2015.⁴ Mae rhai eithriadau lle nad yw hyn yn bosibl ar gyfer crynofeydd dŵr penodol, ac, yn amodol ar y meini prawf a nodir yn y Gyfarwydddeb, dylai aelod wladwriaethau anelu at gyflawni statws da erbyn 2021 neu 2027, neu osod amcan llai llym.

Roedd y **Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003** yn troi'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn gyfraith yng Nghymru a Lloegr ac maent yn darparu amserlen ar gyfer ei gweithredu.⁵

Beth yw'r Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi?

Daeth y **Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi (2006/7/EC)** i rym yn 2015 a'i nod yw gwarchod, diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd, a diogelu iechyd pobl.⁶ Mae hefyd yn ceisio gwella arferion rheoli o ran pob dŵr ymdrochi, a safoni'r wybodaeth sydd ar gael i ymdrochwyr ledled Ewrop. Mae'r Gyfarwydddeb yn diddymu'r gyfarwydddeb 76/160/EEC flaenorol.

Mae'r Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi yn cyflwyno system ddsbarthu newydd sydd â safonau ansawdd dŵr llymch na'r gyfarwydddeb 76/160/EEC flaenorol. Mae'r dosbarthiadau dŵr ymdrochi hyn naill ai'n: 'ardderchog'; 'da'; 'digonol'; neu'n 'wael'. Mae'n ofynnol sicrhau ansawdd dŵr ymdrochi sydd o leia'n 'ddigonol' ar gyfer yr holl grynofeydd dŵr ymdrochi erbyn diwedd y tymor ymdrochi 2015.⁷

Mae **Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013** yn arwain y camau gweithredu o ran y Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi.⁸ Daeth y Rheoliadau i rym ar 31 Gorffennaf 2013. Maent yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau a fu yng Nghymru yn sgîl ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn gwneud rhai newidiadau pwysig o ran rheoli dyfroedd ymdrochi a weithredir yn breifat. O dymor ymdrochi 2016 ymlaen, rhaid i bob awdurdod lleol sy'n rheoli dŵr ymdrochi arddangos dosbarthiad dŵr ymdrochi a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod ar ffurf symbol dosbarthiad, a dylai gynnwys cyngor i beidio ag ymdrochi, lle bydd hynny'n briodol.

Mae cynllun Gwobrau'r Faner Las (a reolir gan Cadw Cymru'n Daclus) yn gwobrwyo traethau sy'n cyrraedd y safonau ansawdd dŵr 'ardderchog' o dan y Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi.⁹ Daeth y wobwr hon yn fwy anodd ei chyflawni ar ôl diwygio safonau ansawdd dŵr y Gyfarwydddeb.

Mae'r Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi a'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn gyd-ddibynnol. Caiff crynofeydd sy'n cael eu pennu'n ddyfroedd ymdrochi eu pennu'n ardaloedd gwarchodedig o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a rhaid eu rheoli'n unol â gofynion y naill Gyfarwydddeb a'r llall.¹⁰ Hefyd, gallai methu â chydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr drwy fethu â sicrhau ansawdd dŵr da mewn dyfroedd mewndol sy'n draenio i ddyfroedd ymdrochi olygu methu â chydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi hefyd.

⁴ Mae 'Statws da' yn golygu 'statws ecolegol da' a 'statws cemegol da'.

⁵ **Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003**, SI 2003/3242 [fel ar 23 Mawrth 2015]

⁶ *OJL 64, 4.3.2006, p. 37-51* [fel ar 23 Mawrth 2015]

⁷ *OJL 64, 4.3.2006, p. 37-51* [fel ar 23 Mawrth 2015]

⁸ **Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013, SI 2013/1675** [fel ar 23 Mawrth 2015]

⁹ Cadw Cymru'n Daclus, **Baner Las** [Fel ar 13 Mawrth 2015]

¹⁰ **Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003**, SI 2003/3242 [fel ar 23 Mawrth 2015]



Beth yw'r Gyfarwyddeb Nitradau?

Nod y **Gyfarwyddeb Nitradau (91/676/EC)** yw lleihau ac atal llygru dŵr gan nitradau o fyd amaeth.¹¹ Mae cydymffurfio â'r gyfarwyddeb hon yn effeithio'n uniongyrchol ar gydymffurfio â'r **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi**. Mae'n ofynnol i aelod wladwriaethau nodi crynofeydd dŵr wyneb a dŵr daear sy'n cynnwys llawer o nitradau o ffynonellau amaethyddol, neu a allai fod yn eu cynnwys. Pan fydd crynoga felly wedi'i nodi, caiff yr holl dir sydd â dŵr yn draenio i mewn i'r grynoga honno ei ddosbarthu'n Barth Perygl Nitradau a bydd cod 'arfer amaethyddol da' yn gymwys i'r grynoga. Rhaid i grynofeydd dŵr mewn parthau o'r fath wedyn gael eu monitro bob pedair blynedd am lefelau ewtroffigedd¹² a nitradau.

Daeth y **Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012** i rym ym mis Mehefin 2012 ac maent yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi'r **Gyfarwyddeb Nitradau** yng Nghymru, gan gynnwys pennu Parthau Perygl Nitradau a'r hyn sy'n ofynnol i ffermwyr sydd â thir yn y parthau hynny ei wneud i leihau llygredd nitradau.

Mae amseriad y broses o roi gwraith, tail a slyri ar y tir mewn Parthau Perygl Nitradau, a'r cyfanswm a ddefnyddir, wedi'i reoli'n dynn, yn flynyddol ac yn ystod cyfnodau caeedig penodol, gan ddibynnu ar y math o bridd a llystyfiant a geir. O'r herwydd, mae'n ofynnol bod ffermwyr mewn parthau o'r fath yn cadw cofnodion a mapiau risg manwl ar eu ffermydd. Daeth cyfyngiadau pellach ar y cyfarpar a ddefnyddir i wasgaru slyri a storio tail o dan y Rheoliadau i rym ym mis Ionawr 2012.¹³

Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Nitradau

Mae costau cychwynnol posibl i ffermwyr mewn Parthau Perygl Nitradau gydymffurfio â'r **Gyfarwyddeb Nitradau**, er enghraifft amcangyfrifir bod rhai cyfleusterau storio slyri yn costio oddeutu £80,000.¹⁴ Fodd bynnag, mae cymorth ar gael i ffermwyr:

- O dan y Cynllun Datblygu Gwledig blaenorol i Gymru (2014-2020), y Polisi Amaethyddol Cyffredin, gallai ffermwyr cymwys gael cyllid o 80 y cant tuag at Gynllunio Rheoli Maethynnau a chyingor o ran y Rheoliadau Parthau Perygl Nitradau drwy Wasanaeth Cyngori Ffermwyr Cyswllt Ffermio.
- O dan y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, mae cymorth ariannol ar gael drwy'r Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy i wella adnoddau ac effeithlonrwydd busnes. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer storio tail/slyri, a chaiff ceisiadau ar gyfer prosiectau mewn Parthau Perygl Nitrad eu blaenoriaethu.¹⁵

¹¹ OJ L 375, 31.12.1991 [fel ar 23 Mawrth 2015]

¹² Caiff ewtroffigedd ei achosi gan ormodedd o faethynnau (nitradau a ffosffadau yn bennaf) yn y dŵr, sy'n gwneud i blanhigion dyfu a phedru'n fwy gan leihau lefelau'r ocsigen yn y dŵr.

¹³ **Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2012**, SI 2012/1238 (Cy.151) [fel ar 23 Mawrth 2015]

¹⁴ Llywodraeth Cymru - Datganiad i'r Wasg, **Grant parthau perygl nitradau yn helpu ffermwyr Cymru**, 28 Ionawr 2011 [fel ar 23 Mawrth 2015]

¹⁵ Llywodraeth Cymru, **Cynllun Grant Cynnyrch Cynaliadwy**, 18 Awst 2015 [fel ar 9 Tachwedd, 2015]

A yw Cymru wedi cyflawni targedau'r Cyfarwyddbau?

Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr;

Mae tair **ardal basn afonydd** a nodwyd yng Nghymru - Gorllewin Cymru, Hafren a Dyfrdwy. Mae ardaloedd Hafren a Dyfrdwy yn croesi'r ffin â Lloegr.¹⁶ Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ardaloedd basnau afonydd sy'n llifo'n gyfan gwbl yng Nghymru (dosbarth Gorllewin Cymru) ac mae Llywodraeth Cymru a Defra yn gyfrifol ar y cyd am ardaloedd basnau afonydd sy'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr.¹⁷ Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain datblygiad Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru a'r Ddyfrdwy ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain datblygiad Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren. **Yn 2012, cyflawnodd 36 y cant o'r crynofeydd dŵr statws ecolegol da.**¹⁸ **Yn 2014, cyflawnodd 42 y cant o'r crynofeydd dŵr statws ecolegol da.** Caiff y cynlluniau wedi'u diweddarau ar gyfer pob ardal basn afon yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015, a byddant yn cwmpasu'r cyfnod 2015-2021.

Y Gyfarwydddeb Nitradau

Diweddarwyd dynodiadau Parthau Perygl Nitradau yng Nghymru ym mis Hydref 2013 ac **mae oddeutu 2.4 y cant o Gymru mewn Parth Perygl Nitradau ar hyn o bryd.**¹⁹ Mae cylch adolygu'r pedair blynedd nesaf yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Cesglir data monitro, a dadansoddir hwy i benderfynu ar statws y lefel nitradau yn nyfroedd Cymru. Defnyddir y wybodaeth hon i adolygu dynodiad Parth Perygl Nitradau sy'n bod eisoes ac i benderfynu a ddylid pennu unrhyw ddyfroedd eraill.

Y Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi

Mae 102 o ddyfroedd ymdrochi a nodwyd yng Nghymru ar hyn o bryd, o'i gymharu â 88 yn 2011.²⁰ **Yn 2015, cyrhaeddodd pob un o'r 102 o ddyfroedd ymdrochi a nodwyd yng Nghymru'r safonau llymach newydd ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi. Roedd 82 yn y categori 'rhagorol', 'da' oedd 16, a 'digonol' oedd y pedwar arall. Nid oedd yr un o ddyfroedd ymdrochi Cymru yn y categori 'gwael'.²¹**

O dan y system flaenorol, yn 2014 roedd pob un o'r 102 o ddyfroedd ymdrochi a nodwyd yng Nghymru yn bodloni safonau 'gorfodol' a 90 yn bodloni'r safonau 'canllaw', sy'n llymach.²² Mewn cymhariaeth, ym 1990 dim ond 70 y cant oedd yn cyrraedd y safon 'orfordol' a 18 y cant yn cyrraedd y safonau 'canllaw'.²³ Mae dadansoddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru o samplau dŵr wedi dangos mai'r pum prif ffynhonnell llygredd yw:

01. Llygredd o garthion - Gall bacteria o garthion fynd i ddyfroedd o ganlyniad i fethiannau systemau, neu orlifo o systemau, neu'n uniongyrchol o weithfeydd trin carthion;

02. Dŵr yn draenio o ffermydd a thir amaethyddol - Gall tail da byw, neu dail o ddulliau storio slyri gwael lifo i

¹⁶Llywodraeth Cymru, *Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr*, 21 Ionawr 2015 [fel ar 23 Mawrth 2015]

¹⁷*Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003*, SI 2003/3242 [fel ar 23 Mawrth 2015]

¹⁸Cyfoeth Naturiol Cymru, *Ymgynghoriad ar y diweddiad arfaethedig i gynlluniau rheoli basn afon yng Nghymru* [Fel ar 26 Chwefror, 2015]

¹⁹Llywodraeth Cymru, *y Gyfarwydddeb Nitradau* 31 Hydref, 2014 [fel ar 22 Ionawr, 2015]

²⁰Llywodraeth Cymru, *Ansawdd dŵr ymdrochi a thraethau yng Nghymru*, 7 Tachwedd 2014 [fel ar 13 Mawrth 2015, diweddarwyd y wybodaeth yn y linc ers hynny]

²¹Llywodraeth Cymru, *Ansawdd dŵr ymdrochi a thraethau yng Nghymru*, 2 Tachwedd 2015 [fel ar 9 Tachwedd 2015]

²²Llywodraeth Cymru, *Ansawdd dŵr ymdrochi a thraethau yng Nghymru*, 7 Tachwedd 2014 [fel ar 13 Mawrth 2015, diweddarwyd y wybodaeth yn y linc ers hynny]

²³Asiantaeth yr Amgylchedd, *Bathing Waters Working in partnership in England and Wales*, Tachwedd 2010



afonydd a nentydd, gan arwain at ddeunydd ysgarthol yn llifo i'r môr;

- 03. Anifeiliaid ac adar ar draethau neu'n agos atynt** - Gall ysgarthion cŵn, adar ac anifeiliaid eraill effeithio ar ddŵr ymdrochi gan eu bod yn aml yn cynnwys lefelau uchel o facteria (llawer uwch na gwastraff pobl sydd wedi'i drin);
- 04. Dŵr sy'n draenio o ardaloedd poblog** - Gall dŵr sy'n draenio o ardaloedd trefol yn dilyn glaw trwm gynnwys llygredd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys ysgarthion anifeiliaid ac adar;
- 05. Carthion Cartrefi** - Gall camgysylltiadau draeniau a thanciau septig sydd wedi'u lleoli a'u cynnal yn wael lygru systemau dŵr wyneb.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Ansawdd Dŵr yng Nghymru**, cysylltwch ag **Elfyn Henderson** (elfyn.henderson@cynulliad.cymru), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gweler hefyd:

- Cyfoeth Naturiol Cymru, [Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr](#) gwefan
- Llywodraeth Cymru [Ansawdd Dŵr Ymdrochi](#) gwefan
- Llywodraeth Cymru [y Gyfarwydddeb Nitradau](#) gwefan

Mae ein hystod lawn o [gyhoeddiadau](#) ar gael ar wefan y Cynulliad: cynulliad.cymru/ymchwil

Gallwch hefyd ein dilyn ar [@SeneddYmchwil](#)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at Ymchwil@Cynulliad.Cymru

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn ag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

Rhif yr ymholiad: 15/2663

Diweddarwyd gan Elfyn Henderson